# Clwb Ar ôl Ysgol Glanrafon

**Pwnc: Ymddiheuriad a Diweddariad ynghylch Archebu Llefydd yn y Clwb Ar Ôl Ysgol**

Annwyl Rieni a Gofalwyr,

Hoffem ymddiheuro'n ddiffuant am yr anawsterau y mae rhai teuluoedd wedi'u profi wrth geisio archebu llefydd yn ein clybiau ar ôl ysgol.

Rydym yn deall pa mor rwystredig y bu hyn ac yn gwerthfawrogi eich amynedd a'ch dealltwriaeth wrth inni weithio i ddatrys y materion. Rydym yn cydnabod bod llawer o rieni yn dibynnu ar y clybiau hyn ac mae'n ddrwg gennym am unrhyw anghyfleustra a achoswyd.

Roedd yr oedi wrth sefydlu a rhyddhau'r clybiau o ganlyniad i nifer o ffactorau, gan gynnwys:

- Dileu clwb ar y system yn ddamweiniol, a achosodd lawer iawn o waith ychwanegol.
- Diweddaru'r gweinydd (server) yn ystod gwyliau'r ysgol, gan olygu nad oedd y system ar gael am gyfnod.
- Sefydlu cyfrifon ar gyfer teuluoedd sy'n defnyddio'r system talebau.

Mae'r ysgol yn cefnogi'r Clwb Ar Ôl Ysgol, ac mae Miss Howatson a minnau yn ymgymryd â gwaith ychwanegol i gefnogi'r ddarpariaeth. Mae llawer o rieni a gofalwyr sy'n gweithio yn dibynnu'n helaeth ar y clwb, ac rydym yn gwbl ymrwymedig i sicrhau ei lwyddiant a gwneud mynediad iddo yn haws i rieni a gofalwyr.

Mae Miss Howatson wedi gwneud ei gorau i gywiro'r sefyllfa, gan hyd yn oed ddod i mewn yn ystod y gwyliau i geisio sefydlu'r clybiau. Yn anffodus, roedd y gweinydd allan o wasanaeth ar y pryd ac ni ellid cwblhau'r gwaith.

Ar hyn o bryd rydym yn adolygu'r broses archebu ac yn gweithio i sicrhau bod pob archeb yn cael ei phrosesu mor deg ac effeithlon â phosibl. Os ydych yn ymwybodol o systemau archebu eraill neu os oes gennych unrhyw awgrymiadau, cysylltwch â ni.

Oherwydd gofynion ein cofrestriad gyda **Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**, mae'n ofynnol i ni gadw at gymarebau staffio llym a niferoedd uchaf penodol er mwyn sicrhau diogelwch a lles pob plentyn sy'n mynychu'r ddarpariaeth. Mae **AGC wedi cymeradwyo 44 o leoedd yn y Clwb Ar Ôl Ysgol**. Mewn ysgol sydd â bron i 360 o ddisgyblion, nid yw hyn yn ddigonol. Ni allwn gynyddu nifer y lleoedd sydd ar gael nes ein bod wedi cael caniatâd AGC.

Yn anffodus, mae hyn yn golygu na allwn fynd y tu hwnt i'r nifer o leoedd a ganiateir ac, o ganlyniad, efallai nad yw rhai teuluoedd wedi gallu sicrhau lle yn y gorffennol. Rydym yn gwerthfawrogi bod hyn yn siomedig ac yn deall yr heriau y gall hyn eu creu i rieni a gofalwyr.

Am y rheswm hwn, **mae'r ysgol wedi sefydlu clwb ychwanegol o'r enw "Clwb Ychwanegol"**. Ar hyn o bryd mae gennym 25 o leoedd ychwanegol yn y clwb hwn. Rydym hefyd yn ceisio trefnu clybiau ysgol ar ddydd Mawrth a dydd Iau gan mai dyma'r diwrnodau prysuraf ar gyfer y Clwb Ar Ôl Ysgol.
Byddwn yn rhannu unrhyw ddiweddariadau cyn gynted â phosibl ac yn gwneud ein gorau i ddarparu ar gyfer disgyblion lle bynnag y bo modd. Os ydych yn cael unrhyw anawsterau, cysylltwch â Miss Howatson.

Diolch am eich cefnogaeth a'ch dealltwriaeth barhaus.
Yn gywir,

**Subject: Apology and Update Regarding After School Club Bookings**

Dear Parents and Carers,

We would like to sincerely apologise for the difficulties some families have experienced while trying to book places for our after school clubs.

We understand how frustrating this has been and appreciate your patience and understanding whilst we work to resolve the issues. We recognise that many parents rely on these clubs and we are sorry for any inconvenience caused.

The lateness of the clubs being set up and released was due to a number of factors including:-

- The accidental deletion of a club on the system, which caused a huge amount of work.
- The server being updated and out of action during the school holidays
- Setting up of families who use the voucher system

The school supports the after school club and both Miss Howatson and myself have additional work in supporting the club. The club is relied upon heavily by many working parents and carers and we are fully committed to ensuring it's success and making it easier for parents/carers to access.

Miss Catrin Howatson has been doing her best to rectify the situation, even coming in during the holidays to try to set up the clubs. Unfortunately the server was down and this could not be completed.

We are currently reviewing the booking process and are working to ensure that all bookings are processed as fairly and efficiently as possible. Should you know of any other booking systems or have any suggestions, please do get in touch.

Due to the requirements of our registration with **Care Inspectorate Wales (CIW)**, we are required to adhere to strict staffing ratios and maximum numbers to ensure the safety and wellbeing of all children attending the provision. **CIW has agreed to 44 spaces in the After School Club**. In a school with nearly 360 pupils, this is not enough. We cannot increase the spaces available until we have CIW's agreement.

Unfortunately, this means that we cannot exceed the number of places available, and as a result in the past, some families may have been unable to secure a place. We appreciate that this is disappointing and understand the challenges this may create for parents and carers.

For this reason, **the school has started the additional club "Clwb Ychwanegol."** We currently have an additional 25 spaces in this club. We also try to run any school clubs on Tuesdays and Thursdays because these are the busiest days for After School Club.

We will communicate any updates as soon as possible and will do our best to accommodate pupils wherever we can. Please do contact Miss Howatson should you be having difficulties.

Thank you for your continued support and understanding. .

Kind regards,

Olwen Corben

Headteacher